



Home Office

Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd (PIN) – Cynllun Ildio ac lawndal Deddf Arfau Ymosodol 2019

archived

Rhagfyr 2020

Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd

Newidiodd cyfraith diogelu data yn y Deyrnas Unedig ar 25 Mai 2018. Mae'r hysbysiad hwn yn adlewyrchu'ch hawliau o dan y deddfau newydd ac yn rhoi gwybod i chi sut y byddwn yn gofalu am ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion gwneud cais am iawndal o dan **Gynllun Ildio ac Iawndal Deddf Arfau Ymosodol 2019**.

At ddibenion y Cynllun Ildio ac Iawndal y Swyddfa Gartref yw'r rheolwr data. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth rydych wedi'i darparu i ni yn uniongyrchol a gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr heddlu ar gyfer penderfynu ar eich cais o dan y Cynllun Ildio ac Iawndal.

Sut rydym yn diogelu'ch gwybodaeth bersonol

Mae'n ddyletswydd arnom i ddiogelu a sicrhau diogelwch eich gwybodaeth bersonol. Rydym yn gwneud hynny trwy gael systemau a pholisïau ar waith i gyfyngu mynediad i'ch gwybodaeth ac atal datgeliad diawdurdod. Rhaid i staff sy'n cyrchu gwybodaeth bersonol gael cliriad diogelwch priodol, angen busnes ar gyfer cyrchu'r wybodaeth a chael awdurdod priodol i gyrchu'r wybodaeth bersonol. Mae eu gweithgareddau'n destun archwilio ac adolygu.

Sut a pham mae'r Adran yn defnyddio'ch gwybodaeth

Dim ond pan fydd gennym sail gyfreithiol briodol i wneud hynny o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 y caniateir i ni ddefnyddio, casglu a rhannu gwybodaeth bersonol. Mae'r Swyddfa Gartref yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol i gyflawni ei swyddogaethau cyfreithiol a swyddogol.

Ymdrinnir â'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch data at ddibenion ystyried unrhyw hawliadau am iawndal o dan y cynllun, o dan Erthygl 6(1)(e) - hynny yw, mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol wedi'i roi i'r rheolwr.

Mae enghreifftiau o ffyrdd y gallwn gasglu'ch gwybodaeth bersonol yn cynnwys:

- rydych yn cyflwyno'ch hawliad am iawndal i'r heddlu am unrhyw arf a ildwyd;
- mae'r heddlu'n anfon eich hawliad am iawndal ac unrhyw ddogfennaeth ategol at y Swyddfa Gartref at ddibenion ystyried a phrosesu'ch cais;
- rydych yn e-bostio ein blwch post ymholiadau penodedig ar y cynllun;
- rydym yn ceisio gwirio unrhyw ran o'ch gwybodaeth, dogfennau neu hunaniaeth a gyflwynwyd fel rhan o'ch cais am iawndal; a
- rydych yn cysylltu â'r Swyddfa Gartref i godi anghydfod ynghylch swm yr iawndal a gynigiwyd.

Byddwn yn prosesu ac yn cadw'ch gwybodaeth bersonol er mwyn ystyried eich cais am iawndal.

Enghreifftiau o sut y gallem ddefnyddio'ch data:

- i wirio'ch gwybodaeth neu unrhyw ddogfennau ategol;

- i gadarnhau manylion eich cais;
- i gysylltu â chi mewn perthynas ag ystyried eich cais am iawndal; ac
- i wneud penderfyniad mewn perthynas â'ch hawliad iawndal

Sefydliadau eraill sydd â mynediad i'ch gwybodaeth bersonol

Bydd gan yr heddlu fel corff cyhoeddus fynediad i'ch gwybodaeth bersonol fel rhan o'r trefniadau ar gyfer y cynllun ildio ac iawndal. Mae Rheoliadau Ildio Arfau Ymosodol (lawndal) 2020 yn nodi'r trefniadau ar gyfer y cynllun. Mae'n ofynnol o dan y Rheoliadau i bob hawlydd gyflwyno eu ffurflenni hawlio am iawndal ar yr un pryd ag y maent yn ildio'u harf i'r heddlu. Bydd yr heddlu'n gwirio pwy ydych chi a'r wybodaeth ar eich ffurflen hawlio, yn gwirio bod y ffurflen wedi'i chwblhau'n iawn ac yn gwirio bod unrhyw ddogfennaeth ategol wedi'i hamgáu gyda'r ffurflen. Bydd yr heddlu'n cwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen hawlio i gadarnhau eu bod wedi gwirio'r ffurflen, cadarnhau eich hunaniaeth ac mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem a darparu rhif adnabod unigryw ar gyfer eich cais. Bydd pob hawlydd yn cael derbynneb am ei hawliad â rhif adnabod unigryw. Yna anfonir y ffurflen hawlio yn electronig gan yr heddlu i'r Swyddfa Gartref i ystyried eich cais am iawndal.

Cysylltu â chi trwy ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Y tu hwnt i brosesu arferol eich cais am iawndal, gallwn ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol (er enghraifft, eich cyfeiriad e-bost neu'ch rhif ffôn) i anfon awgrymiadau atoch. Er enghraifft, lle gallai fod angen gwybodaeth bellach arnoch i gefnogi'ch cais neu i'ch hysbysu o ganlyniad eich cais.

Am faint o amser y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bydd angen at ddibenion a ganiateir. Cedwir eich data am 6 blynedd ar ôl cwblhau'ch cais.

Ar hyn o bryd mae moratoriwm ar ddileu gwybodaeth a roddir i'r Swyddfa Gartref. Ar ddiwedd y cyfnod cadw os bydd y moratoriwm yn parhau, bydd eich data yn cael eu cadw mewn ffeil ar wahân at ddibenion cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sydd ar waith gan y moratoriwm hwnnw ac nis defnyddir at unrhyw ddiben arall.

Eich hawliau unigol sy'n ymwneud â'ch data personol

Mae gennych hawl i ofyn am fynediad i'r wybodaeth bersonol sydd gan y Swyddfa Gartref amdanoch.

Mewn rhai amgylchiadau mae gennych hefyd yr hawl i:

- 1) Unioni unrhyw ddata yr ydych yn penderfynu eu bod yn anghywir neu ar goll
- 2) Dileu eich data personol
- 3) Cyfyngu ar y defnydd o'ch data personol
- 4) Gwrthwynebu ei ddefnydd

Os ydych am arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, yna anfonwch e-bost atom yn:

info.access@homeoffice.gov.uk

Sylwch nad yw ceisiadau post yn cael eu prosesu oherwydd Covid-19 hyd nes y bydd rhybudd pellach pe byddech yn dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau hyn.

Cwestiynau neu bryderon ynghylch data personol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch casglu, defnyddio neu ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Swyddfa Gartref trwy'r cyfeiriad e-bost dilynol:

info.access@homeoffice.gov.uk

Sut i gwyno

Mae'r Swyddfa Gartref wedi penodi swyddog diogelu data (DPO) i helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol wrth brosesu gwybodaeth bersonol. Gallwch gysylltu â'r DPO i gael rhagor o wybodaeth yn:

E-bost: dpo@homeoffice.gov.uk Ffôn: 020 7035 6999

Neu ysgrifennwch at:

Office of the DPO
Home Office
Peel Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffordd yr ydym yn trin eich gwybodaeth neu'n ymateb i'ch ceisiadau am fynediad i'ch gwybodaeth bersonol neu arfer eich hawliau eraill o dan y GDPR neu Ddeddf Diogelu Data 2018.

Mae'r manylion cyswllt fel sy'n dilyn:

The Office of the Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Gwefan: <https://ico.org.uk/>



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/offensive-weapons-act-surrender-and-compensation-scheme>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: OWACompensationSchemeEnquiries@homeoffice.gov.uk